Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 356

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Rhodd Seremoni Wobrwyo EYST**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Seremoni Wobrwyo Cyflawniadau Blynyddol Clwb Ieuenctid EYST yn noson ysbrydoledig yn canolbwyntio ar gydnabod a dathlu gwaith caled, ymroddiad, a chyflawniadau'r bobl ifanc anhygoel yn ein cymuned.

Cynhelir y seremoni wobrwyo ym Mosg Hwlffordd ar 10 Rhagfyr 2024.
Mae'r seremoni wedi ei chynllunio i wobrwyo unigolion ifanc sydd wedi dangos ymroddiad, twf, a chyfraniad eithriadol i'r Clwb Ieuenctid, cymunedau lleol a thu hwnt. Mae'r digwyddiad yn darparu llwyfan i amlygu eu cyflwyniadau a rhoi ymdeimlad haeddiannol o gyflawniad iddynt, gan eu hysgogi i barhau i anelu at eu hamcanion ac ysbrydoli eraill yn y broses.

Cynigwyd cyfraniad o £500.00 i gefnogi'r gweithgarwch yn 2024 yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu o atal niwed a'r gwerth: ymgysylltu'n eang.

**Argymhelliad:**
Argymhellir y dylid rhoi cyfraniad o £500.00 i gefnogi'r digwyddiad hwn o'r gyllideb Gwerthiant Eiddo a Ganfuwyd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 15/11/24**